Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

# **Bil y Lluoedd Arfog:** Cydsyniad Deddfwriaethol

Mawrth 2025

Mae'r adroddiad hwn yn nodi safbwyntiau y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol sy'n ymwneud â Bil y Lluoedd Arfog a gyflwynwyd ar 27 Ionawr 2026.

## 1. Y cefndir

**1.** Noddir Bil y Lluoedd Arfog gan y Weinyddiaeth Amddiffyn ac fe'i cyflwynwyd ym mis Ionawr 2026.[1] Mae paragraffau 3 a 5 o'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn crynhoi'r Bil ac yn nodi prif amcanion polisi Llywodraeth y DU.

**2.** Mae paragraffau 6 i 8 yn nodi y bu ymgysylltiad cynnar, cyson a chadarnhaol rhwng swyddogion ynghylch datblygu'r Bil.[2]

[1] Armed Forces Bill (fel y'i cyflwynwyd) (Saesneg yn unig)
[2] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol – Bil y Lluoedd Arfog, Ionawr 2026

# 2. Darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad ar eu cyfer

**3.** Mae paragraffau 9 i 19 yn nodi'r darpariaethau y mae angen cydsyniad ar eu cyfer. Ym marn Llywodraeth y DU, mae angen cydsyniad dim ond mewn perthynas â **chymal 2** o'r Bil. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod angen cydsyniad y Senedd hefyd ar gyfer **cymalau 3, 9, 10, 25, 37, 50, 52, 54 ac Atodlenni 1 a 6.**[3]

- Mae **Cymal 2** yn ymestyn y ddyletswydd gyfreithiol bresennol i roi sylw dyledus i egwyddorion Cyfamod y Lluoedd Arfog, i Weinidogion Cymru. Mae'r materion sy'n ddarostyngedig i'r ddyletswydd estynedig yn cynnwys nifer o feysydd polisi datganoledig (addysg a hyfforddiant, iechyd a gofal cymdeithasol, tai ac ati).

- Mae **Cymal 3** ac **Atodlen 1** yn sefydlu'r Gwasanaeth Tai Amddiffyn (GTA) i wella tai amddiffyn a rheoli tir a ddefnyddir at ddibenion amddiffyn. Rhoddir pwerau prynu gorfodol i gaffael tir ac at ddibenion eraill sy'n gysylltiedig â swyddogaethau'r GTA.

- Mae **Cymal 9** yn ymwneud ag asesu'r risgiau a berir gan rai troseddwyr. Mae'r cymal yn sicrhau bod troseddwyr sydd wedi cyflawni rhai troseddau difrifol o dan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 2003 yn cael eu goruchwylio'n awtomatig o dan y drefn trefniadau amlasiantaethol ar gyfer amddiffyn y cyhoedd a nodir yn y Ddeddf honno.

- Mae **Cymal 10** yn darparu ar gyfer Cod Ymarfer i'w gyhoeddi gan yr Ysgrifennydd Gwladol ar gyfer y rhai sy'n darparu cymorth i ddioddefwyr troseddau'r lluoedd arfog. Rhaid i unrhyw berson sydd â swyddogaethau o natur gyhoeddus sy'n ymwneud â dioddefwyr troseddau'r lluoedd arfog roi sylw i'r canllawiau.

- Mae **Cymal 25** yn creu dyletswydd statudol newydd ar yr Ysgrifennydd Gwladol i gyhoeddi canllawiau i ddarparwyr gwasanaethau i ddioddefwyr yn system cyfiawnder y lluoedd arfog ynghylch awdurdodaeth gydredol. Rhaid i unrhyw berson sydd â

[3] Noder bod pob cyfeiriad at gymalau ac atodlenni'r Bil fel y'i cyflwynwyd.

swyddogaethau o natur gyhoeddus sy'n ymwneud â dioddefwyr ymddygiad honedig sy'n drosedd y gellir ei rhoi ar brawf mewn llys y lluoedd arfog neu lys sifiliaid roi sylw i'r canllawiau.

- Mae **Cymal 37** ac Atodlen 6 yn creu corff corfforaethol newydd, Cymdeithas y Lluoedd Wrth Gefn a'r Cadetiaid, ac yn diddymu'r Cymdeithasau a sefydlwyd o dan Ddeddf Lluoedd Wrth Gefn 1996.
- Mae **Cymal 50, 52** a **54** yn gymalau sy'n ymwneud â dehongli, rhychwant a chychwyn a darpariaethau trosiannol.

### Y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru ym Mil y Lluoedd Arfog

**4.** Mae Llywodraeth Cymru yn datgan bod Bil y DU yn fwy priodol i wneud y darpariaethau hyn yn hytrach na Bil y Senedd "gan fod y darpariaethau a wneir yn rhai sydd y tu hwnt i gymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Mae'r darpariaethau a wneir yn y Bil yn ymwneud ag amddiffyn, sy'n fater a gedwir yn ôl."

**5.** Fodd bynnag, mae angen Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol "serch hynny" gan fod nifer o ddarpariaethau yn y Bil yn "rhoi swyddogaethau i Weinidogion Cymru a/neu Awdurdodau Cymreig Datganoledig, neu'n dileu neu'n addasu eu swyddogaethau, neu'n rhoi sylw fel arall i faterion datganoledig."[4]

**6.** Mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod "er budd gorau Cymru i ddarpariaeth o'r fath gael ei chynnwys ym Mil y DU. Bydd hyn yn helpu i sicrhau lefel o gysondeb ar draws y DU o ran gweithredu'r Cyfamod a gwreiddio'r ddyletswydd gyfreithiol ymhellach, gan ganiatáu ar yr un pryd i wasanaethau a darpariaeth ddatganoledig roi polisïau ychwanegol ar waith i gefnogi cymuned y Lluoedd Arfog."[5]

## 3. Ystyriaeth a safbwyntiau'r Pwyllgor

**7.** Gwnaethom ystyried y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn ein cyfarfod ar 23 Chwefror 2026 a chytuno i ysgrifennu at Ysgrifennydd y Cabinet

[4] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol – Bil y Lluoedd Arfog, Ionawr 2026
[5] Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol – Bil y Lluoedd Arfog, Ionawr 2026

dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru gyda chwestiynau allweddol. Cafodd y Pwyllgor Llywodraeth Leol a Thai ei gopïo i'r ohebiaeth.[6]

**8.** Wrth ymateb ar ran Llywodraeth Cymru, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet "nad oes unrhyw adnodd ychwanegol yn cael ei ddarparu i gefnogi cyrff cyhoeddus i weithredu'r ddyletswydd gyfreithiol i roi sylw dyladwy i Gyfamod y Lluoedd Arfog".[7]

**9.** Gwnaethom ofyn am y darpariaethau yng nghymal 3 gan gynnwys pwerau prynu gorfodol a sut y gallent ryngweithio â pholisi tai datganoledig. Cadarnhaodd Llywodraeth Cymru na fyddai ganddi unrhyw rôl mewn pryniannau gorfodol gan y GTA gan eu bod yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl. Mynegodd Ysgrifennydd y Cabinet bryder ynghylch "y swyddogaethau ategol i waredu, adfywio neu fel arall i gynhyrchu elw o hendir amddiffyn" gan ddweud y gallai'r rhain "fynd yn groes i strategaethau sefydledig ar gyfer creu lleoedd gan Lywodraeth Cymru neu awdurdodau lleol."

**10.** Er gwaethaf y pryderon hyn, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei fod wedi cael sicrwydd y byddai "unrhyw ddatblygiad a gyflwynir gan y GTA yn ddarostyngedig i ganiatâd cynllunio."

## Ein barn ni

### O ran a oes angen cydsyniad

Cytunwn â Llywodraeth Cymru, yn ogystal â chymal 2, bod angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd mewn perthynas â chymalau 3, 9, 10, 25, 37, 50, 52, 54 ac Atodlenni 1 a 6. Mae hyn oherwydd bod y darpariaethau hyn naill ai'n rhoi, yn dileu neu'n addasu swyddogaethau Gweinidogion Cymru a/neu Awdurdodau Cymreig Datganoledig neu fel arall yn ymwneud â materion datganoledig fel tai, cydlyniant cymunedol a pholisi creu lleoedd.

Rydym yn pryderu bod safbwyntiau Llywodraeth y DU ar y darpariaethau sy'n gofyn am gydsyniad yn gwyro mor sylweddol oddi wrth safbwynt Llywodraeth

[6] Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, gohebiaeth at Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Bil y Lluoedd Arfog , 26 Chwefror 2026
[7] Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol, gohebiaeth gan Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Bil y Lluoedd Arfog, 9 Mawrth 2026

Cymru, ac rydym yn gresynu at gulder y prawf a ddefnyddiwyd gan lywodraethau olynol y DU i benderfynu ar y materion hyn.

**Casgliad 1.** Yn ogystal â chymal 2, mae angen cydsyniad deddfwriaethol y Senedd ar gyfer cymalau 3, 9, 10, 25, 37, 50, 52, 54 ac Atodlenni 1 a 6.

### O ran y cyfleoedd i'r Senedd fynegi ei barn

Rhaid i ni gyflwyno adroddiad erbyn y terfyn amser a osodwyd gan y Pwyllgor Busnes, sef 20 Mawrth 2026. Fodd bynnag, ni ddisgwylir i bleidlais gael ei threfnu ar gyfer y Cyfarfod Llawn tan ar ôl yr etholiad ac felly bydd y cwestiwn o ran a ddylid rhoi cysyniad yn fater i'r Senedd nesaf a'n holynwyr. Rydym wedi paratoi'r adroddiad hwn i lywio ystyriaeth yr Aelodau o'r materion waeth a yw'r system bwyllgorau ar gyfer y Seithfed Senedd ar waith erbyn yr adeg pan ofynnir i'r Senedd nesaf ystyried y cynnig cydsyniad deddfwriaethol.

Mae'r trefniadau hyn yn afreolaidd a byddai'n well gennym pe bai'r Senedd bresennol yn mynegi ei barn ar y darpariaethau. Fodd bynnag, os nad yw hynny'n bosibl, rydym o'r farn bod y dull gweithredu hwn yn well na sefyllfa lle nad oes unrhyw waith craffu gan bwyllgorau yn digwydd.

Mae'n hanfodol bod y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol yn cael ei drafod yn briodol yn ein senedd genedlaethol ac rydym yn disgwyl yn llwyr i'r llywodraeth nesaf gyflwyno cynnig cydsyniad deddfwriaethol i'w drafod cyn gynted â phosibl yn y tymor seneddol nesaf.

### O ran oblygiadau polisi'r Bil ac a ddylid rhoi cydsyniad

Rydym yn croesawu ymestyn dyletswydd Cyfamod y Lluoedd Arfog i Weinidogion Cymru fel y darperir ar ei gyfer gan gymal 2. Fodd bynnag, nodwn na fydd adnoddau ychwanegol yn cyd-fynd â hyn, a allai gael effaith ar ba mor effeithiol y mae'r ddyletswydd yn cael ei gweithredu yn ymarferol.

Rydym yn rhannu pryderon Ysgrifennydd y Cabinet y gallai'r pwerau prynu gorfodol sydd wedi'u cynnwys yn y Bil o bosibl fynd yn groes i strategaethau creu lleoedd Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol. Ond mae gennym bryderon sylweddol hefyd ynghylch ym mha ffordd y bydd penderfyniadau gan y GTA yn destun caniatâd cynllunio, ac nid yw'n glir i ni. Ar hyn o bryd, nid yw'n glir pwy fyddai'r penderfynwr terfynol mewn achosion cynllunio perthnasol, ac mae angen rhagor o wybodaeth cyn y gallwn fod yn sicr na fyddai'r GTA yn gallu diystyru Gweinidogion Cymru.

O fewn yr amser a oedd ar gael i ni, nid oeddem yn gallu ystyried y cymalau eraill yn y Bil yn ddigon manwl o safbwynt craffu pwyllgor. Fodd bynnag, dylai Llywodraeth y DU sicrhau bod Llywodraeth Cymru yn cael ei chynnwys yn llawn ac yn gallu herio canllawiau mewn perthynas â chymalau 9, 10, a 25, a'i bod yn cael cyfle i roi sylwadau ar ddrafftiau yn gynnar er mwyn sicrhau bod y safbwynt datganoledig yn cael ei adlewyrchu yn y fersiynau terfynol.

**Casgliad 2.** O ran cydsyniad deddfwriaethol, ar y cam hwn, rydym yn argymell peidio â rhoi cydsyniad nes y daw rhagor o wybodaeth am y materion a amlygir yn yr adroddiad hwn, yn enwedig mewn perthynas â chaniatadau cynllunio, a gallu Gweinidogion Cymru i herio unrhyw ganllawiau y maent yn anghytuno â hwy ar sail cydraddoldeb rhwng llywodraethau.